

**ROYAL WELSH COLLEGE  
OF MUSIC & DRAMA  
COLEG BRENHINOL  
CERDD A DRAMA CYMRU**

**BALANCE**



**ARDDANGOSFA  
CYNLLUNIO AR  
GYFER PERFFORMIAD**

**AN EXHIBITION  
OF DESIGN FOR  
PERFORMANCE**



*“Mae Balance yn nodi'r datbygiad o fyfyrwr i weithiwr proffesiynol drwy arddangosfa o fodelau, lluniadau, gosodiadau, seiniau a ffilm. Mae'r gwaith cydweithredol sydd ei angen i wireddi'r digwyddiad hwn a'i symud o Gaerdydd i Lundain, flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn dyst i allu ac ymroddiad y myfyrwyr i ymrwymo eu bywydau i greu cyfle i fod yn rhan o ddatblygiad yr unigolion unigryw hyn ac rydym yn dymuno'r gorau oll iddynt yn eu gyrfaedd yn dyfodol.”*

*Sean Crowley, Cyfarwyddwr Drama*

*“Balance marks the transition from student to professional through an exhibition of models, costume, drawing, installation, sounds and film. The collaborative work in realising this event and transferring it from Cardiff to London is, year in year out, a testament to the students' ability and dedication in committing their lives to making performance events. The College is privileged to have been a part of the development of these unique individuals and wish them the very best for their future careers.”*

*Sean Crowley, Director of Drama*

**ROYAL WELSH COLLEGE  
OF MUSIC & DRAMA  
COLEG BRENHINOL  
CERDD A DRAMA CYMRU**

**RHAGLENNI  
GRADD**

BA (Anrh) Cynllunio  
ar gyfer perfformiad  
BA (Anrh) Rheoli Llwyfan  
a Theatr Dechnegol  
BA (Anrh) Actio  
BMus (Anrh)  
Cerddoriaeth  
BMus (Anrh) Jazz

**UNDERGRADUATE  
PROGRAMMES**

BA (Hons)  
Design for Performance  
BA (Hons)  
Stage Management  
and Technical Theatre  
BA (Hons) Acting  
BMus (Hons) Music  
BMus (Hons) Jazz

**RHAGLENNI  
OL-RADD**

Perfformio Cerddoriaeth  
Perfformio Cerddorfaol  
Perfformio Hanesyddol  
Jazz  
Astudiaethau Rapetiteur

Actio ar gyfer Llwyfan,  
Sgrin a Radio  
Theatr Gerd  
Perfformio Opera Uwch  
Cyfarwyddo Opera

**POSTGRADUATE  
PROGRAMMES**

Music Performance  
Orchestral  
Performance  
Jazz  
Historical  
Performance  
Repetiteurship

Acting for Stage,  
Screen & Radio  
Musical Theatre  
Opera Performance

Cyfansoddi  
Arwain Cerddorfaol  
Arwain Band Pres  
Arwain Corawl  
Piano Cydweithredol  
Perfformio  
Chwythbrennau  
Aml-offeryn

Rheoli Llwyfan  
a Digwyddiadau  
Cynllunio ar gyfer  
Perfformiad  
Rheolaeth yn y  
Cellyddyddau

Composition  
Orchestral  
Conducting  
Brass Band  
Conducting  
Choral Conducting  
Piano  
Accompaniment

Stage & Event  
Management  
Design for Performance  
Arts Management

Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, fel Conservatoire Cenedlaethol Cymru, yn darparu hyfforddiant ymarferol arbenigol o'r radd flaenaf yn seiliedig ar perfformiad ym meysydd cerddoriaeth a drama.

The Royal Welsh College of Music & Drama is the National Conservatoire of Wales and a leading UK provider of specialist practical and performance-based training in music and drama.

### **ORIEL LINBURY CBCDC**

Noson Agoriadol  
Mer 12 Mehefin 7pm

Wythnos 10am - 8pm  
Penwythnos 10am - 4pm  
Yn cau Mer 19 Mehefin

Mynediad am Ddim

### **BARGEHOUSE**

**Oxo Tower Wharf, South Bank,  
Llundain, SE1 9PH**

Noson Agoriadol  
Iau 27 Mehefin 6.30pm

Gwe 28 Mehefin - Sul 30 Mehefin 10.30am - 7pm

Mynediad am Ddim

### **LINBURY GALLERY RWCMD**

Opening Night  
Wed 12 June 7pm

Weekdays 10am - 8pm  
Weekends 10am - 4pm  
Closing Wed 19 June

Admission Free

### **BARGEHOUSE**

**Oxo Tower Wharf, South Bank,  
London, SE1 9PH**

Opening Night  
Thu 27 June 6.30pm

Fri 28 June - Sun 30 June 10.30am - 7pm

Admission Free

Cynllunwyr, rheolwyr llwyfan, cerddorion, perfformwyr a thechnegwyr graddedig yn cyfuno i roi golwg newydd ar waith Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Mae'r arddangosfa flynyddol hon yn agor yn ein Oriel Linbury cyn mynd ymlaen i Bargehouse ar y South Bank yn Llundain, gan ddwyn yn ei sgil fynegiant ehangach yr ymarferydd cynllunio creadigol unigol a'r artist cydweithiol.

Graduate designers, stage managers, composers, performers and technicians combine to present a fresh look at the work of the Royal Welsh College of Music & Drama.

This annual exhibition opens in our Linbury Gallery before transferring to Bargehouse on London's South Bank, bringing with it a greater breadth of expression of both the individual creative design practitioner and the collaborative artist.

01 ALLEN, Esme  
02 BRENNAN, Zoe  
03 BÜYÜKÇINAR, Ahmet  
04 CASPIAN, Harry  
05 DITTON, Elliot  
06 DONALDSON, Mimi  
07 DURU, Debbie  
08 DUTTON, Bobbie  
09 FOLEY, Tammy  
10 FURNIVAL, Dora  
11 GIFFORD, Rachel  
12 GUBB, Helen  
13 HASLETT-VENUS, Hester  
14 HAY, TK  
15 HICKSON-LANGFORD, Buddug  
16 HILL, Georgia  
17 HOOD, Cara  
18 HUBBARD, Abi  
19 JEFFREY, Aline  
20 JOHNSON, Clare Marie  
21 JONES, Frankie

22 JONES, Gregg  
23 KYRMIZI, Natalie  
24 LIN, Yiwen  
25 LIN, Yu (Elle)  
26 MALONEY, Megan  
27 NICHOLSON, Leonora  
28 NOËL, Seren  
29 NOH, Jin  
30 PACIFICADOR, Julia Melissa  
31 PIZZEY, Harry  
32 RAW, Siobhan  
33 REVITT, Rose  
34 ROUTLEY, Faith  
35 SADLER, AI  
36 SAKUMA, Yuki  
37 STEWART, Jack Lancelot  
38 TEVAR, Jose  
39 VALENTINE, Jack  
40 VATURY, Roey  
41 WEEKS, Emma-Jane  
42 WILLIAMS, Nathan Rhys



### ESME ALLEN

'Fishing'- sioe gomedi un fenyw dywyll a chynnes. Darn 22 munud o hyd oedd hwn yn wreiddiol a ysgrifennwyd ac a berfformiwyd fel rhan o asesiad diwedd blwyddyn sydd, dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi tyfu i'r hyn ydyw heddiw. Bu'n hyfryd i gydweithio gyda Jack Valentine i greu ystafell Lola ar ffurf haniaethol, gan weld ei phersonoliaeth drwy ofod y llwyfan.

Mae Lola yn lleisio'r meddyliau nas llefarir, mae'n canfod hiwmor yn yr adegau tywyllaf ac mae'n gaeth.

Yn ei hystafell. Am resymau y bydd hi'n yn eu hesbonio.  
Beth am fynd i bysgota.

'Fishing'- a wild and warm black comedy one-woman show. Originally a 22 minute piece written and performed for an end of year assessment which over the last year has grown into what it is today. It's been a beautiful collaboration working with Jack Valentine to create Lola's room in an abstract form, seeing her personality through the stage space.

Lola speaks the unspoken thought, she finds humour in her darkest times and she is stuck.

In her room. For reasons she will explain.

Let's go Fishing.

[tom@tombarrettartists.com](mailto:tom@tombarrettartists.com)

+44 (0)7542982180

[spotlight.com/interactive/cv/19/F264049.html](https://spotlight.com/interactive/cv/19/F264049.html)





## ZOË BRENNAN

Mae nifer di ben draw o ffyrdd i wneud gwaith, a byddaf wrth fy modd yn rhannu'r broses gyda chyfarwyddwyr, cwmnïau a phobl greadigol eraill i ddatblygu sut y gallai perfformiad esblygu. Mae profiad y gynulleidfa yn rhan annatod o'm dull, ac yn aml caiff y gwaith y byddaf yn ei wneud ei ddylanwadu gan wleidyddiaeth gymdeithasol, yn ogystal â chelf gain a phensaernïaeth. Rwy'n cydbwysu cynllunio gyda dealltwriaeth a dehongliad deallusol o destun neu gysyniad, ochr yn ochr â'm greddf weledol a'm llygad am fanylder. Mae fy ngallu i reoli amser a'm dull ymarferol yn golygu fy mod yn hyderus wrth fynd i'r afael â phob agwedd a her ymarferol o wireddu perfformiad.

There are infinite ways to make work and I love sharing the process with directors, companies and creatives to develop how a performance might evolve. The experience of the audience is integral to my approach, and the work I make is often influenced by social politics, as well as fine art and architecture. I balance designing with intellectual understanding and interpretation of text or concept, alongside my visual instincts and eye for detail. My time management and hands on approach mean I am confident at tackling all aspects and practical challenges of realising a performance.

zoebrennandesign@gmail.com  
+44(0)7582472255  
zoebrennandesign.co.uk





### AHMET EMRE BÜYÜKÇINAR

Gan gydnabod y set sgiliau safonol sydd eu hangen ar y diwydiant, sy'n amrywio o CAD, creu modelau, creu propiau ac adeiladu golygfeydd, bwriadaf ddyrchafu fy nghynlluniau i lefel bersonol sy'n siarad â'r gynulleidfa drwy amlinellu naws, cefndir a thôn, a chyfleu difrifoldeb unrhyw ddiwyddiad.

Gwareiddiad yw diwylliant ei hun.  
- Mustafa Kemal Atatürk

Recognizing the demanding industry standard skill set ranging from CAD, model making, prop making and scenic construction, I intend to elevate my designs to a personal level that speaks to the audience by outlining the mood, setting the tone, and capturing the solemnity of any event.

Civilization is none other than culture itself.  
-Mustafa Kemal Atatürk



buyukcinara@gmail.com  
TR +90 (531)2837614 US +1 (502) 2024310  
aeb.design



## HARRY CASPIAN

Rwy'n hoffi gwneud yr hynod, yr anarferol, a'r hyn sydd ychydig yn afresymol. O'r cartrefol a'r manwl i olygfeydd mwy ysblennydd, rwy'n creu gwaith sy'n tanio'r dychymyg lle bynnag y gallaf: mewn adfeilion, ystadau crand neu gaeau mwldyd gwyliau. Mae'r perfformio yn fy nenu hefyd: caf yr un mwynhad mewn rhoi bywyd i'm gwaith ar gyfer cynulleidfa ag y caf yn ei adeiladu. Byddaf yn fy elfen yn gweithio gyda'r unigryw a'r anarferol, a'm mhrif nod yw creu rhywbeth sy'n cyd-fynd â nodweddion gofod drwy greadur, gwisg, senograffi a golau.

I like making the madcap, the curious, and the little bit ludicrous. From the intimate and intricate to more sizeable spectacles, I create work that jumpstarts the imagination wherever I can: in crumbling ruins, grand estates, or the mud-filled fields of festivals. Performance holds a strong draw for me too: I love bringing my work to life for an audience as much as I enjoy building it. Working with the unique and the unusual I'm in my element, and creating something that resonates with a space's peculiarities through creature, costume, scenography and light is my ultimate aim.

[harry@harrythemaker.uk](mailto:harry@harrythemaker.uk)  
+44 (0)7512023283  
[harrythemaker.uk](http://harrythemaker.uk)





### ELLIOT DITTON

Rydw i wastad wedi bod yn berson 'theatraidd'; rwy'n frwd iawn dros greu. Byddaf yn mwynhau bob agwedd ar guradu darn o theatr, o'r cynllun i'r perfformiad. Llynedd perfformiais fy sioe unawdol cyntaf: 'Polyester Princess' yng Nghanolfan Gelfyddydau Battersea, lle gwnes arddangos fy hoffter o bypedwaith ac adrodd storiâu. Yn ystod fy nghyfnod yn CBCDC a BAC rydw i wedi bod yn ddigon ffofus i weithio gyda phobl hynod dalentog a hael eu cyngor. Fy nod yw parhau i dyfu fel artist, cydweithio a dysgu gan eraill yn y diwydiant.

I've always been a very 'theatrical' person; I have a passion to create. I enjoy every aspect of curating a piece of theatre, from the design to the performance. Last year I performed my first solo show: 'Polyester Princess' at Battersea Arts Centre, where I showcased my love of puppetry and storytelling. During my time at RWCMD & BAC I've been lucky enough to work with incredibly talented and giving people. My goal is to continue to grow as an artist, collaborate and learn from others in the industry.



elliott.ditton@gmail.com  
+44 (0)7794518155  
www.elliottditton.com



### MIMI DONALDSON

Fel Cynllunydd, gweithio mewn amgylchedd gyda grŵp o bobl greadigol sydd â'r un meddylfryd sy'n fy nghyffroi i. Gwneud gwaith sy'n hwyl, chwyldroadol a diddorol; sy'n rhoi cydnabyddiaeth gyfartal i rôl y celfyddydau mewn cymdeithas fel offeryn gwleidyddol-gymdeithasol sy'n ysgogi fy niddordeb mewn ffurf celf.

Caf fy ysgogi drwy ddod i gysylltiad â syniadau, technegau a sefyllfaoedd newydd a'm nod yw meistroli fy sgiliau, dysgu a datblygu rhai newydd er mwyn cyfathrebu syniadau yn y modd gorau a pharhau i ddarganfod byd perfformio a chynllunio.

As a Designer, working in an environment with a group of like-minded creatives is what I find exciting. Making work that is fun, subversive and engaging; that equally recognises the role of the arts in society as a socio-political tool is what drives my interest in the art form.

I am motivated by exposure to new ideas, techniques and encounters and I aim to master my skills, learn and develop new ones, in order to best communicate ideas and keep discovering the world of performance and design.

mimidonaldson94@gmail.com  
 +44 (0)7943020746  
 www.mimidonaldson.co.uk





### DEBBIE DURU

Cyrhaeddais fyd y theatr drwy ffasiwn. Roedd pob prosiect yn wers yn sut y gall cynllun weddnewid gofod, a arweiniodd at greu gwaith seiliedig ar brofiad ac yn benodol gosodiadau. Mae astudio wedi mireinio fy sgiliau ymarferol, tra bod creu modelau a CAD wedi ehangu fy nghwmpas fel cynllunydd. Mae natur archwiliol y cwrs hefyd wedi helpu i'm diffinio fel artist. Rwy'n hoffi mynd dan groen pethau, a chredaf y dylai theatr ofyn cwestiynau anodd. Rydw i eisiau ysgogi sgwrs, a gwnaf hyn orau drwy gynllunio teimladau a naws mewn gofod; canfod lliw, tòn a gwriad fel cyd-nodweddion naturiol.

I came to theatre through fashion. Each project was a lesson in the ways that design can transform space, which led to creating experiential work and specifically installation. Studying has refined my practical skills, whilst model-making and CAD has broadened my scope as a designer. The explorative nature of the course has also helped define me as an artist. I like to get under the belly of things, and think theatre should ask hard questions. I want to provoke conversation, and do this best when designing feelings and mood in the space; finding colour, tone and texture as natural allies.

debbie.duru@gmail.com  
+44 (0)740399375  
debbieduru.com






### BOBBIE DUTTON

Boed yn gelf olygfaol, creu propiau neu wisgo set, fydda'i byth yn blino bod yn rhan mewn gwireddu cynhyrchiad. Mae fy agwedd ymarferol a chadarnhaol tuag at ddatrys problemau wedi caniatáu i'm sgiliau creadigol a thechnegol ddatblygu tra fy mod yn CBCDC. Fodd bynnag, dim ond dechrau fy ngwaith yw hyn, rwy'n llawn cyffro i barhau i ddysgu (hyd yn oed os yw hynny'n golygu gwneud paneidiau o de a'r tasgau nad oes neb arall awydd eu gwneud am beth amser).

Whether it be scenic art, prop making or set dressing, I never tire of being involved in the realisation of a production. My hands-on, positive approach to problem-solving has allowed my creative and technical skills to develop whilst at RWCMD. However, this is only the start of my journey, and I am so excited to continue learning (even if that does mean making cups of tea and doing the jobs others don't want to do for a while).

bobbie.dutton@hotmail.com  
+44 (0)7415376974  
bobbiedutton.com





### TAMMY FOLEY

Mae bod yn fyfyrwr yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru wedi dangos i mi yr holl lwybrau gwahanol o fewn y diwydiant gwisgoedd. Rydw i wedi canfod angerdd am rôl goruchwylydd gwisgoedd.

Rwy'n mwynhau'n fawr bod yn rhan o dîm a gallu cydweithio gyda chynllunwyr, cyfarwyddwyr a'r tîm rheoli llwyfan er mwyn dod â lluniad gwisg yn fyw, yn cynnwys unrhyw waith datrys problemau a allai godi. Mae'r amrywiaeth sydd i'r rôl yn fy nghyffroi, a gallaf archwilio nifer o wahanol gyfnodau. Rwy'n eiddgar iawn i weld beth sy'n aros ar fy nghyfer yn y dyfodol.

Being a student at the Royal Welsh College of Music and Drama has shown me all the different avenues within the costume industry. I have found a passion within the role of a costume supervisor. I really enjoy being part of a team and being able to collaborate with designers, directors and stage management, bringing a costume drawing to life, including any problem solving that may occur. The variation of the role really excites me, as I am able to explore many different eras. I am excited to see what lies ahead of me.

tammyfoley.costume@gmail.com  
+44 (0)7896622985  
www.tammyfoley.co.uk





### DORA FURNIVAL

Archwilio ffyrdd dyfeisgar newydd i greu tirwedd mewn gofod noeth yw'r rheswm pam fod celf golygfaol o ddidordeb mawr i mi. Dros amser, drwy haenau o archwilio gyda phaent, gwead a lliw, rydych yn rhoi hunaniaeth i ofod. Mae'r berthynas rhwng artist golygfeydd a chynllunydd yn yr wyf yn ei mwynhau ac yn ffynnu ynddi; hwy yn ymddiried ynof i droi eu cynllun yn realiti. Mae harddwch lliw, gwead a manylder yn fy ysgogi yn fy holl waith a'm bywyd. Mae fy set sgiliau paentio eang a'm natur ymchwilgar seiliedig ar dim yn golygu fy mod yn fwyaf hapus yn y gweithdy gyda brwsh yn fy llaw.

Exploring new, inventive ways to create a landscape within a bare space is why scenic art captivates me. Over time, through the layers of exploration with paint, texture and colour, you are gifting a space with its identity. The relationship between scenic artist and designer is one that I really enjoy and thrive in; being trusted to bring their design from vision to fruition. The beauty of colour, texture and detail stimulate me in my work and life. My broad painting skillset and team orientated, inquisitive nature means that I am at my happiest in the workshop, brush in hand.

dora.furnival@gmail.com  
+44 (0) 07552695888  
www.dorafurnival.com





## RACHEL GIFFORD

Ni ddechreuodd fy niddordeb mewn gwisgoedd gyda'r rhodfeydd modelau na brandiau'r cynllunwyr ond yn hytrach mae wedi'i wreiddio mewn cyfathrebu gyda phobl eraill. Mae sut mae rhywun wedi gwisgo yn cyfathrebu pwy ydynt, sut maent yn teimlo y diwrnod hwnnw, a'u cyfnod mewn bywyd. Cyn y gallwn siarad mae ein dillad yn siarad ar ein rhan. Fel rhywun sydd â diddordeb mawr mewn pobl a'u gallu i arfer y ffurf hon o gyfathrebu, rydw i eisiau ysbrydoli pobl i ddeffro a pheidio â bod ofn dangos i'r byd pwy ydynt a chynnal yr hyder hwnnw drwy gydol y dydd.

My interest in clothing didn't begin with runways or designer brands but is rooted in communicating with other people. The way one is dressed communicates who they are, how they're feeling that day, and the stage they're at in their lives. Before we can speak, our clothing speaks for us. As someone who is deeply invested in people and in their ability to exercise this form of communication, I want to inspire people to wake up and feel unafraid to show the world who they are and to carry that confidence with them all day.

rgifforddesign@gmail.com  
+44 (0)7828082376  
rachelgifforddesign.com





### HELEN GUBB

Mae'r cwrs hwn wedi rhoi cyfle i mi archwilio, datblygu ac atgyfnerthu fy sgiliau creadigol, sy'n cynnwys fy sgiliau gwnïo technegol ac rydw i wedi ymgolli'n llwyr mewn cynllunio, torri patrymau ac adeiladu gwisgoedd mewn ystod o arddulliau a deunyddiau. Rwy'n edrych ymlaen at gynllunio a gwneud gwisgoedd ar gyfer perfformiadau byw yn ogystal â'r sgrin.

This course has given me time to explore, develop and consolidate my creative skills, including my technical sewing skills and I have immersed myself in design, pattern cutting and costume construction in a range of styles and materials. I look forward to designing and making costumes for live performance as well as screen.



helenthestitchery@gmail.com  
+44 (0)7810818476  
thestitchery.org





### HESTER HASLETT VENUS

Rydw i wrth fy modd gyda'r bach. Wrth greu byd ar raddfa y byddaf fwyaf hapus, boed hynny drwy wneud modelau, pypedwaith neu wisgoedd ac fe welwch sylw i fanylder yn fy holl waith cynllunio. Mae cyfuno hyn gyda diddordeb mewn ffilm a theledu wedi fy ngwneud i fod eisiau dilyn gyrfa mewn animeiddiad 'stop-motion'. Byddaf wastad yn mwynhau her greadigol ac ymgymryd â rolau cynllunio newydd, gan ddod â nawws heddychlon ond eto presenoldeb cynhyrchiol i unrhyw brosiect.

I love the miniature. Creating a scaled world is where I am happiest, be it through model making, puppetry or costume and you'll find this focused attention to detail in all my design work. Combining this with an interest in film and television has led me to wanting to pursue a career in stop-motion animation. I am always up for a creative challenge and taking on new design roles, and will bring a calm yet productive presence to any project.

hesterhv.design@gmail.com  
+44 (0) 7902993727  
hesterhaslettvenusdesign.com





### TK HAY

Cynllunydd theatr ydw i sydd â diddordeb mewn goleuo a thechnoleg, ac archwilio'n benodol ddefnydd realiti rhithwir mewn cynllunio. Gallaf greu modelau a defnyddio AutoCAD, SketchUp, a gwahanol feddalwedd Adobe. Rwy'n ystwyth o ran fy sgiliau ac yn mwynhau heriau, ac wedi symud ar draws y byd i astudio yma. Byddaf yn mwynhau gweithio ym mhob cyfrwng perfformio ond mae fy mhrif ddiddordeb mewn theatr fel cyfrwng gwleidyddol-gymdeithasol ar gyfer newid.

I am a theatre designer with an interest in lighting and technology. I can model-make and am proficient with AutoCAD, SketchUp, and various Adobe software. I am adaptable, relish challenges, and have recently begun exploring the use of virtual reality in design. I enjoy working on all performative media but am primarily interested in theatre as a sociopolitical vehicle for change.

tkhaydesign@gmail.com  
+44 (0)7731911552  
tkhay.design





### BUDDUG HICKSON - LANGFORD

Mae fy nghyfnod yma yn CBCDC wedi agor llawer o ddrysau a llwybrau gyrfa newydd nad oeddwn i'n gwybod am eu bodolaeth, ond yn fwyaf pwysig rydw i wedi dysgu am y dyfalbarhad a'r stamina sy'n rhan o'r daith. Gallaf ddweud o'r diwedd fy mod yn wneuthurwr gwisgoedd medrus; mae hyn wrth gwrs yn rhywbeth y gellir wastad ei wella felly rwy'n benderfynol i barhau i ddysgu a datblygu. Rwy'n edrych ymlaen at rannu profiadau newydd a chreu'r hyn na ellir ei ddechmygu. I'r gad!

My time here at RWCMD has opened many new doors and career paths I never knew existed, most importantly I have learned the endurance and stamina that is part of the ride. I can finally say that I am a skilled costume maker; this is of course always something to be improved so I am determined to continue learning and strive for better. I look forward to new shared experiences and to create the unimaginable. Onward and upward!

buddug.costume@gmail.com  
+44 (0)7456228244  
buddughickson-langford.com





## GEORGIA HILL

Mae gwneud pypedau yn gofyn am ddefnyddio set sgiliau amrywiol yr wyf wedi mwynhau ei ehang a'i datblygu yn ystod fy nghyfnod yn CBCDC. Gyda phob pyped daw her newydd a'r cyfle i ddysgu rhywbeth newydd. Mae gweld cynulleidfa yn ymateb ac yn credu mewn cymeriad rydw i wedi'i greu o fraslun yn elfen o grefft pypedwaith sy'n rhoi gwefr a boddhad i mi. Lle bynnag bo hynny'n bosibl byddaf yn hoffi dod â'm natur hwyliog, fy hoffter o liwiau llachar a synnwyr digrifwch gwahanol i brosiect. Rwy'n edrych ymlaen at yr hwyli a'r heriau sydd i ddod!

Puppet making demands the application of a diverse skillset, which during my time at RWCMD I have enjoyed expanding and developing. Each puppet brings a new challenge and the opportunity to learn something new. Seeing an audience respond and believe in a character I have created from a sketch, is a thrilling and rewarding part of puppet making. Wherever possible, I like to bring my cheery nature, love of bright colours and wacky sense of humour to a project. I look forward to the fun challenges that lie ahead!

Main Photo: Ted Edwards

hello@georgia-hill.com  
+44 (0)7479518118  
georgia-hill.com





'Rwy'n mwynhau eistedd yn y tywyllwch a chreu fy heulwen fy hun'

### CARA HOOD



Mae gan olau y gallu i weddnewid gofod, cludo cynulleidfia i sefyllfaoedd diderfyn a chuddio'r cyfrinachau tywyllaf oll. Rydw i wedi cael nifer o gyfleoedd rhyfeddol dros y tair blynedd ddiwethaf i gydweithio gyda llawer o gyfarwyddwyr ac artistiaid dawnus, a gyda phob sioe rydw i wedi tyfu fel cynllunydd goleuo. Rwy'n frwd dros fod yn rhan o greu gwahanol fydoedd a'u rhannu gyda phobl eraill. Byddaf wastad yn llawn cyffro i weithio ar gynyrchiadau llawn ysbrydoliaeth newydd a chydweithredu ar bob math o theatr.

'I like to sit in the dark and make my own sunshine.'

Lighting has the ability to transform a space, transport an audience to limitless realities and hide the darkest of secrets. I have had many amazing opportunities over the past three years to collaborate with many different talented directors and artists and with each show I have grown as a lighting designer. Being a part of creating different worlds and sharing them with others is my passion. I am always excited to work on inspiring new productions and collaborating on all varieties of theatre.

carahood@outlook.com  
+44 (0) 7982 423 153  
carahood.co.uk






### ABI HUBBARD

Sbardunwyd fy niddordeb mewn creu yn sgil fy astudiaethau celf gain ac wrth fod yn ddyfeisiwr llawrydd. O ran cyd-destun, caf fy ysbrydoli gan ffilmiau a llenyddiaeth ffuglen wyddonol, pensaerniaeth a ffasiwn. Mae astudio yn CBCDC wedi fy helpu i ddod yn wneuthurwr mwy technegol; mae gennyf ddiddordeb mawr mewn deunyddiau a theimlaf nad oes llawer o ffiniau i gyfyngu ar yr hyn y gellir ei greu ym maes adeiladu golygfeydd. Byddaf yn gweithio mewn llawer o ddisgyblaethau er mwyn cael dealltwriaeth gyffredinol o gynrychiadau a pherfformiadau yn eu cyfanrwydd.

My interest in making was sparked through my studies in fine art and being a freelance fabricator. Contextually, I am inspired by sci-fi film and literature, architecture and fashion. Studying at RWCMD has helped me become a more technical maker; I have a fascination with materials and feel that within scenic construction there are few boundaries to what can be created. I work through many different disciplines in order to gain an overall understanding of production and performance as a whole.

thebe.creative@outlook.com  
+44 (0)7517765355  
thebecreative.com





### ALINE JEFFREY

I mi, yn y bôn mae theatr yn ymwneud â gweithio fel tîm i greu rhywbeth a fydd yn cyfathrebu gyda chynulleidfaoedd ac adrodd stori a fydd yn creu argraff ddofn. Adrodd storïau sy'n effeithio ar bobl yw'r rheswm y deuthum mor hoff o'r theatr. Rydw i wrth fy modd yn gweithio ym mhob cam o waith theatr, o greu'r model hyd at y cynllun wedi'i wireddu. Mae fy ngwaith fy hun yn canolbwyntio ar sut y gellir defnyddio gwrthrychau a gofod i wahodd neu ynysu cynulleidfa, gan gymysgu'r cyfarwydd â'r anghyfarwydd i ddenu ymateb emosiynol.

For me, theatre is fundamentally about working as a team to create something that will communicate with audiences and tell a story that will resonate profoundly. Telling stories that move people is the reason I fell in love with theatre. I love working in all stages of theatre, from creating the model all the way to a realised design. My own work focuses on how objects and space can be used to invite in or isolate an audience, mixing the familiar with the unusual to illicit an emotional response.

amjdesigner@outlook.com  
+44 (0)79646498801  
amjdesigner.co.uk





## CLARE MARIE JOHNSON

Rydw i wrth fy modd yn torchi fy llewys i greu pethau a gweithio oriau hir er mwyn gwireddu gweledigaeth rhywun. Fel artist golygfeydd mae gen i ddiddordeb mawr mewn paentio ac yn cael boddhad mewn gweithio i gynllunydd. Byddaf yn mwynhau'r cyffro a ddaw gyda chanfod atebion creadigol yn gyflym.

Fel cynllunydd rwy'n gwerthfawrogi setiau perthnasol a synhwyrol. Mae setiau yn offer grymus sy'n cynrychioli eiliadau byrhoedlog, personol a chyfarwydd. Maent yn rymus ac yn uno ar gyfer cyfnod byr sioe. Mae cydweithio gyda thîm i wireddu gweledigaeth yn rhoi hwb i rywun, ac rydw i wrth fy modd gyda hynny.

I love getting my hands dirty creating things and working long hours making someone's vision come alive. As a scenic artist I'm passionate about painting and I enjoy working for a designer. I like the excitement that comes with finding creative solutions quickly.

As a designer I value relatable, relevant and grounded sets. Sets are powerful tools that represent fleeting, personal and familiar moments. They are powerful and unifying for the brief duration of a show. Collaborating with a team to make my vision happen is nourishing, and I love that.

claremarie.johnson@outlook.com  
+44 (0)7590334421  
clarejohnsondesign.com





## FRANKIE JONES

Mae'r syniad o greu byd diddorol a gwych allan o ddim ond plastr a phren yn rhyfeddol i mi. Mae'n gwneud i mi werthfawrogi'n fawr bopeth bach mewn bywyd pob dydd. Alla'i ddim peidio ag edrych ar grac yn y palmant neu staen te ar fwrdd heb feddwl sut fyddwn i'n gallu ail-greu hyn ar gyfer Teledu neu Theatr. Gyda digon o ymroddiad a dyfalbarhad, mae unrhyw beth yn bosibl. Rwy'n teimlo mor fodlon pan fo problem wedi'i datrys a'r canlyniad yw prop, puped neu set hardd.

The idea of creating a fantastical and engaging world out of nothing but plaster and plywood is astounding to me. It fills me with overwhelming amount of appreciation for all of the small things in everyday life. I can't help but look at a crack in the pavement or tea stained table without thinking just how I would be able to recreate it for Television or Theatre. With enough dedication and persistence, anything is possible. I feel so contented and satisfied when a problem has been solved and the result is a beautiful finished prop, puppet or set.

frankiejones.artistmaker@gmail.com  
+44 (0)7445484207  
frankiejonesmaker.com






### GREGG JONES

Beth nesa? Cynllynydd-gwneuthurwr cyfryngau ffisegol a digidol ydw i. Gan arbenigo mewn propiau byddaf yn defnyddio fy set sgiliau mewn argraffu 3D a modelu i ddod â bywyd i'r anniriaethol. Caf fy ysbrydoli gan feysydd gemau a ffuglen ac rwy'n llawn angerdd am yr hynod a'r hudol. O'r gwych i'r mwy sylfaenol, pin ysgrifennu ydw i sydd â diddordeb brwd mewn arfer fy nghreffft yn ogystal â dysgu ac ehangu wrth i mi luniadu ac ysgrifennu ar draws gofod cynhyrchiad. Cynllun. Drafft. Breuddwyd. Beth am ddechrau arni.

What's next? I am a designer- maker of physical and digital media. Specializing in props, I use my skill set in 3D printing and modelling to bring the intangible to life. Taking inspiration from games and fiction, I am passionate about the strange and magical. From the fantastical to the more grounded, I am a fountain pen with a keen interest to practice my craft as well as learn and expand as I draw and write across the space of a production. Design. Draft. Dream. Let's get started.



gregg@greggjonesdesign.com  
UK: +44 (0) 7473892745 US: +1 (571) 277-0927  
greggjonesdesign.com




### NATALIE KYRMIZI

Mae fy mhrif ddiddordeb yn y rôl y mae gwisgoedd yn ei chwarae yn y celfyddydau perfformio - dehongliad testun drwy gymeriadau a mynegiant cysyniadau, yn arbennig drwy wahanol gyfnodau amser. Mae'r gwaith yr ydw i wedi bod yn rhan ohono o ran elfen dechnegol gwisgoedd theatraidd wedi siapio a datblygu fy ymwybyddiaeth o wisgoedd mewn gwella stori yn weledol. Gan adeiladu ar fy mhrofiad ym myd y theatr a'm dealltwriaeth o sgiliau perthnasol: cynllunio tecstilau, gwau, lliwio, torri patrymau, adeiladu gwisgoedd, gwneud hetiau, corsedwaith - fy nyhead a'm bwriad yw cyfrannu'n greadigol at greadigaeth weledol y bydoedd perfformio hudol hyn.

My deepest interest lies in the role that costume plays in the performing arts - the interpretation of text through characters and the expression of concepts, particularly through different time periods. My involvement in the technical element of theatrical costuming has shaped and developed my awareness of costume in enhancing a story visually. Building on my experience in theatre and my knowledge of relevant skills: textile design, knitting, dyeing, pattern cutting, costume construction, millinery, corsetry - my desire and intention is to creatively contribute to the visual creation of these magical worlds of performance.

nataliekyrmizi@gmail.com  
+44 (0)7787029406  
www.nataliekyrmizi.com





## YIWEN LIN

Cefais fy ngeni a'm magu mewn tref fechan yn Tsiena cyn symud yma, a'r pedair blynedd ddiwethaf yn y DU fu'r blynyddoedd pwysicaf i mi hyd yn hyn, gan lywio fy ngwerthoedd a'm safbwyntiau ar y byd. Credaf fod emosiynau yn rhan annatod o fywyd, gan ddod i'r amlwg mewn ymateb corfforol neu seicig i'r digwyddiadau o'n cwmpas. Mynegi hyn yw fy ngobaith fel cynllunydd gwisgoedd.

I was born and lived in a small town in China before moving here and the past four years in UK have been my most important ones so far, shaping my values and outlook on the world. I believe emotions are inherent to life, manifesting as physical or psychic responses to the events around us. I hope as a costume designer to express this.



yiwenlindesign@gmail.com  
 +44 (0)7479835119  
 yiwenlindesign.uk



## YU LIN (ELLE)

Cynllunydd gwisgoedd o Tsiena ydw i, gyda gradd BA mewn Cynllunio Ffasiwn o Brifysgol Tianjing ac MA mewn Cynllunio Gwisgoedd o Academi Genedlaethol Celfyddydau Theatr Tsiena. Gweithiais fel gwirfoddolwr yn World Stage Design yn 2017 a hefyd yn natliad Oistat 50 yn 2018 yng Nghaerdydd.

